OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 757 (Cy.62)

ARCHWILIO CYHOEDDUS, CYMRU

Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud	- -	*15 Mawrth 2005*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan y deddfiadau a bennir yn yr Atodlen i'r offeryn hwn, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus 2004 (Cymru) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 a daw i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru yn unig.

Diwygio is-ddeddfwriaeth

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cwmnïau) 1995(**1**) fel a ganlyn:

(2) Yn erthygl 9, hepgorer y geiriau o "the Audit Commission's consent" hyd at y diwedd, ac yn eu lle rhodder "the consent of—

(a) "where the company is under the control of one or more local authorities, all of which are local government bodies in Wales within the meaning of section 12 of the Public Audit (Wales) Act 2004, the Auditor General for Wales;

(b) in any other case, the Audit Commission,

to the appointment of that person."

3.—(1) Diwygir Gorchymyn Eithrio Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998(**2**) fel a ganlyn:

(2) Yn erthygl 4(2)(c)(v), ar y diwedd, mewnosoder y geiriau "or the Auditor General for Wales".

(**1**) O.S. 1995/849.
(**2**) O.S. 1998/648.